

Y Pwyllgor Diwylliant CC-9-02(min)

COFNODION

Dyddiad: Dydd Mercher 1 Mai 2002

Amser: 9.00am-12.30pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, Y Cynulliad Cenedlaethol

Presennol:

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

Val Lloyd (Llafur, Dwyrain Abertawe – yn dirprwyo dros Alison Halford)

Ymddiheuriadau

Alison Halford (Llafur, Delyn)

Swyddogion

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Stephen Thomas (Dirprwy Glerc y Pwyllgor)

Prys Davies (Is-adran Diwylliant a'r Gymraeg)

Mark Williams (Is-adran Diwylliant a'r Gymraeg)

O Gwyn Griffiths (Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol)

Peter Harding (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)

Hefyd yn bresennol:

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd Arbenigol y Pwyllgor)

Datganiadau o fuddiant:

- Rhodri Glyn Thomas – aelod o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.
- Dafydd Wigley - ei wraig yn aelod amlwg o gymuned y celfyddydau yng Nghymru; roedd wedi derbyn grant gan Gyngor Llyfrau Cymru ac roedd ganddo gysylltiadau ffurfiol â Hijinx Theatre.
- Rosemary Butler – Cadeirydd Prosiect Amgueddfa Genedlaethol Diwydiant a'r Môr.

Sylwadau Rhagarweiniol

1. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau iddynt gael eu gwahodd i dderbyniad â swyddogion o Wlad y Basg ddydd Mercher nesaf (8 Mai). Atgoffodd Rosemary Butler yr Aelodau am dderbyniad a oedd i'w gynnal y noson honno ar gyfer ysgolheigion y Cyngor Prydeinig.

Eitem 1: Adolygiad o'r Gymraeg – Papurau: CC-9-02(p.1-2)

Materion cyfieithu

Presennol:

Y Llywydd

Paul Silk, Clerc i'r Cynulliad

David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd

Gwen Parry, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfathrebu'r Cynulliad

Meinir Pritchard, Pennaeth Gwasanaeth Cyfieithu'r Cynulliad

John Walter Jones, Prif Weithredwr, Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Meirion Prys Jones, Bwrdd yr Iaith Gymraeg

1. Wrth gyflwyno'r eitem hon, dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig gwahaniaethu rhwng arferion yn y Cynulliad ac arferion mewn mannau eraill yng Nghymru ac y dylai'r Cynulliad ddod yn sefydliad o ragoriaeth am ddwyieithrwydd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Llywydd roi manylion am sefyllfa ddiweddaraf Cynllun Iaith Gymraeg Swyddfa'r Llywydd. Atebodd y Llywydd nad oedd gan Swyddfa'r Llywydd Gynllun fel y cyfryw; yr unig gynllun iaith a oedd ar waith ar hyn o bryd oedd Cynllun Iaith y Swyddfa Gymreig, a oedd yn cael ei adolygu. Ychwanegodd fod Swyddfa'r Llywydd wedi cynnal archwiliad o'r defnydd o'r Gymraeg yn y Cynulliad a'i bod yn gweithredu ar sail Adran 47 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Roedd y Ddeddf yn datgan y canlynol: "Assembly shall in the conduct of its business give effect, so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that the English and Welsh languages should be treated on the basis of equality". Teimlai nad oedd yr ymadrodd "rhesymol ymarferol" ("reasonably practicable") yn cynnig esgus dros beidio â chyfieithu oherwydd diffyg adnoddau. Teimlai hefyd fod y Cynulliad yn agos at fod yn gorff cwbl ddwyieithog gan fod ei drafodaethau llawn a'i holl bapurau yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog.
2. Cododd Aelodau fater oedi cyn derbyn fersiynau Cymraeg o bapurau Pwyllgorau, a holwyd a oedd gwastraff yn y system trwy gyfieithu dogfennau nad oeddent yn cael eu darllen a dim ond yn gorwedd ar silff. Arweiniodd hyn at drafod a ddylid cyfieithu pob dogfen neu a ddylid datblygu rhyw ffurf ar flaenoriaethu. Y farn gyffredinol oedd y dylid blaenoriaethu. Dylid cymryd na fyddai pob dogfen yn cael ei chyfieithu ac awgrymodd rhai Aelodau y dylid rhoi'r flaenoriaeth gyntaf i bapurau a oedd yn galw am benderfyniadau, a'r ail le i bapurau cefndir. Amheuai Aelodau a oedd cyfieithu pob dogfen mewn gwirionedd yn cyfrannu at greu sefydliad cwbl ddwyieithog neu a fyddai'n fwy defnyddiol neilltuo adnoddau i fwy o gyfieithu ar y pryd, neu i ffyrdd eraill o gefnogi'r iaith.
3. Dywedodd y Gweinidog fod ymgynghori ar ddechrau ar Gynllun Iaith Gymraeg newydd a bod swyddogion ar y pryd yn gweithredu cynllun peilot ar gyfer blaenoriaethu cyfieithu o fewn y Cynulliad.

4. Rhoddodd swyddogion Swyddfa'r Llywydd fanylion am sut y gweithredai Gwasanaeth Cyfieithu'r Cynulliad. Dywedodd y swyddogion nad oedd a wnelo'r Gwasanaeth â phenderfyniadau polisi o ran cyfieithu; gweithredai mewn ffordd debyg i asiantaeth, ond nad oedd mewn sefyllfa i wrthod gwaith. Roedd tri phrif gwsmer: Swyddfa'r Llywydd, yn cynnwys aelodau a swyddogion y Cynulliad; Llywodraeth Cynulliad Cymru; Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Gweithiai'r Gwasanaeth hefyd â Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol ar ddrafftio is-ddeddfwriaeth a darparai wasanaeth gwirio testun i aelodau o staff a ddrafftiai atebion yn Gymraeg. O ran blaenoriaethau, mater i gwsmeriaid oedd penderfynu beth ddylai gael blaenoriaeth ac i gynllunio ac amseru eu gwaith yn fwy effeithiol. Dywedodd y Gwasanaeth, wrth roi enghraifft o faich gwaith, ei fod ym mis Chwefror wedi derbyn dros filiwn o eiriau i'w cyfieithu. Roedd y Gwasanaeth Cyfieithu yn cysylltu'n agos â Swyddog Iaith Gymraeg y Cynulliad ac â'r is-adrannau polisi ynghylch eu hanghenion cyfieithu. Yn y dyfodol, byddai'r meddalwedd cof cyfieithu a brynwyd yn ddiweddar o gymorth mawr i'r gyfundrefn gyfieithu gan y byddai'n cyflymu'r broses gyfieithu ac yn arwain at gynhyrchu mwy o waith ac at fwy o gysondeb yn y cyfieithu.
5. Manteisiodd Aelodau ar y cyfle i gydnabod y gwaith aruthrol yr oedd y Gwasanaeth Cyfieithu yn ei wneud a safon uchel y cyfieithu ar y pryd.
6. Hysbysodd Mark Williams, Swyddog Iaith y Cynulliad y Pwyllgor fod y gyfundrefn gyfieithu dan bwysau mawr ar y pryd. Roedd cytundeb bras, am resymau ymarferol, fod angen blaenoriaethu. Byddai Cynllun Iaith Gymraeg y Llywodraeth, a oedd i'w gyhoeddi cyn hir, yn cynnwys trefn flaenoriaethu o'r fath. Teimlai os oedd penderfyniad yn cael ei wneud y dylid cynhyrchu dogfen yn ddwyieithog, yna y dylai'r fersiynau Cymraeg a Saesneg fod ar gael yr un pryd.
7. Roedd safon y Gymraeg a gyhoeddid gan y Cynulliad mewn rhai dogfennau yn fater arall pwysig a oedd yn bryder i Aelodau. Dywedodd swyddogion Gwasanaeth Cyfieithu'r Cynulliad eu bod yn ceisio cynnal y safonau uchaf posibl a bod rhaid i bob dogfen a gâi ei hanfon at gyfieithwyr allanol gael ei dychwelyd yn addas i'w chyhoeddi. Roedd teimlad cryf fod angen rheoleiddio'r diwydiant cyfieithu yn fwy trylwyr.
8. Yn y fan hon, gadawodd cynrychiolwyr Swyddfa'r Llywydd a daeth swyddogion o Fwrdd yr Iaith Gymraeg (ByrIG) i gymryd eu lle. O ran safonau cyfieithu, ychwanegodd swyddogion ByrIG mai dim ond un corff proffesiynol yng Nghymru oedd yn cynrychioli cyfieithwyr; teimlent y dylai pob darpar gyfieithydd orfod sefyll arholiad cyn cymhwyso a dod yn aelod o gorff proffesiynol.
9. Roedd ByrIG ar hyn o bryd yn cydweithio â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar safonau, a byddai'n llunio prosiect â chostau a fyddai'n cynnwys ffyrdd o ddatblygu'r Gymdeithas fel y gallai weithredu fel offeryn rheoleiddio'r Bwrdd, trwy weithio ar y cyd ag eraill. Awgrymwyd y dylid cael cyfeiriadur blynyddol o gyfieithwyr achrededig a fyddai hefyd yn nodi cyfieithu arbenigol.
10. Bu'r Aelodau hefyd yn trafod y diffyg cyrsiau hyfforddi cenedlaethol ar gyfer cyfieithwyr proffesiynol. Teimlent y dylai cyrsiau o'r fath fod ar gael trwy Gymru.

Awgrymwyd y dylid codi hyn yn y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ac y dylid annog ELWa i ddechrau trafod â Phrifysgol Cymru ynghylch datblygu cyrsiau, o bosibl trwy greu uned arbenigol.

11. Arweiniodd y drafodaeth yr Aelodau i gytuno ar y canlynol:

- **Strategaeth gyfieithu** – Cytunodd yr Aelodau ynghylch yr angen i ddatblygu strategaeth gyfieithu gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar y cyd â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru. Dylai'r strategaeth gwmpasu safonau a rheoleiddio, hyfforddiant a chymwysterau, llwybrau gyrfa a datblygiadau mewn Technoleg Gwybodaeth.
- **Cyfieithu o fewn y Cynulliad** – Cytunodd yr Aelodau y dylai dogfen y penderfynid y dylai fod yn ddwyieithog fod ar gael yn y ddwy iaith yr un pryd; lle bynnag y byddai modd dylai dogfennau yn y ddwy iaith fod yn gryno, yn glir ac yn ddiwastraff.

Swyddogaethau a chyfrifoldebau – Papur-CC-9-02(p.2)

10. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod hon yn drafodaeth bwysig a fyddai'n arwain at rai o'r prif argymhellion yn yr adroddiad terfynol. Roedd yn ymddangos nad oedd swyddogaeth y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn arbennig yn glir, ac roedd angen i'r adroddiad roi sylw i'r materion hynny. Teimlai fod Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi cael llawer o feirniadaeth annheg yn ddiweddar a bod angen i bobl dderbyn bod galwadau trwm iawn ar y Bwrdd. Rhoddodd ganmoliaeth hefyd i'r rhan bwysig yr oedd Clybiau Ffermwyr Ifainc yn ei chwarae yn eu defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned.
11. Cytunai'r Aelodau y dylai'r Cynulliad gymryd yr awenau strategol a gosod y polisi ar gyfer yr iaith. O fewn y Cynulliad, roedd llawer o Aelodau yn pwysleisio pa mor bwysig oedd i'r Gymraeg fod yn thema drawsbynciol yn yr un ffordd â chyfle cyfartal, ac y dylid cael Uned neilltuol o fewn y Cynulliad i gefnogi'r iaith. Nid oedd fawr frwdfrydedd, fodd bynnag, dros Bwyllgor neilltuol o'r Cynulliad ar gyfer yr iaith. Roedd Aelodau o'r farn y dylai'r iaith fod yn gyfrifoldeb i bob Pwyllgor ond y dylai'r Pwyllgor Diwylliant fod yn benodol gyfrifol am adolygu a datblygu polisi ar gyfer y Gymraeg.
12. Bu peth trafod ar swyddogaeth y Mentrau Iaith yn y dyfodol. Mynegodd y Cadeirydd bryder nad oedd sefyllfa a chyllido'r Mentrau yn unffurf trwy Gymru. Bu'r Aelodau'n trafod yr angen am strwythur canolog i'r Mentrau, i gydlynu a chyfnewid arferion da, ond penderfynwyd bod angen rhagor o wybodaeth cyn dod i gasgliadau pendant. Yn arbennig, gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau ailedrych ar yr argymhellion a wnaed yn yr adolygiad diweddar o'r Mentrau Iaith a gynhaliwyd gan Iaith Cyf.
13. Mynegwyd peth pryder ynghylch cyfrifoldebau deul Bwrdd yr Iaith Gymraeg dros gynllunio a rheoleiddio ieithyddol, ond cytunai'r Aelodau y dylid cadw a chryfhau'r Bwrdd fel y brif asiantaeth dros gynllunio ieithyddol ac y dylai fod â rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu partneriaethau rhwng y Mentrau Iaith ac awdurdodau lleol. Gwrthododd yr Aelodau y cynigion ynghylch cyrff neu

sefydliadau newydd a roddwyd gerbron yn ystod yr adolygiad.

Eitem 2: Cyflwyniad gan 'Yr •yl Rhyngwladol Theatr Gerdd'

Cyflwynwyr:

Vincent Kane, Cadeirydd

Joanne Benjamin, Prif Weithredwr

2.1 Gwnaed y pwyntiau canlynol yn ystod y cyflwyniad:

- Cynhelir 'Yr •yl Rhyngwladol Theatr Gerdd' yng Nghaerdydd rhwng 14 Hydref a 3 Tachwedd 2002. Mae'r •yl wedi denu llawer iawn o ddiddordeb a brwdfrydedd o du'r proffesiwn a Chymru.
- BBC Cymru a Chyngor Dinas Caerdydd oedd yn gyfrifol am y syniad. Gwelsant fod bwlbh yn y farchnad gan fod theatr gerdd yn un o'r ychydig ffurfiau ar gelfyddyd nad oedd ganddi ei g•yl ei hun.
- Bydd yr •yl yn cynnwys perfformiadau byw a gweithgareddau addysg fel dosbarthiadau meistr, grwpiau astudio a chynadledau. Bydd y deunydd yn cynnwys cerddoriaeth o'r gorffennol a'r presennol ac yn cwmpasu popeth a ddaw yn hwylus o fewn *genre* theatr gerdd, yn cynnwys dawn, bale, opera ysgafn a chabare.
- Neuadd Dewi Sant fydd yn croesawu'r digwyddiadau sy'n cynnwys yr enwau mawr; bydd y Theatr Newydd yn croesawu theatr gerdd brif ffrwd a chystadleuaeth y BBC; bydd Theatr Sherman yn croesawu cwmnïau sy'n ymweld o'r tu allan i Gymru ac mae Canolfan Gelfyddydau Chapter wedi trefnu eu rhaglen eu hunain. Cynhelir cyfres o ddigwyddiadau llai hefyd yn y Castell ac yn yr Amgueddfa Genedlaethol.
- Bydd y rhaglen addysgol a chymunedol yn ymestyn y tu allan i Gaerdydd ac yn cynnwys gwe-ddarlliediad byw o'r dosbarthiadau meistr a chystadleuaeth i ysgolion uwchradd Cymru gyfansoddi cân agoriadol yr •yl.
- Y gobaith oedd y byddai'r •yl yn ychwanegu at fri Caerdydd yn yr un ffordd ag yr oedd G•yl Caeredin wedi helpu'r ddinas honno. Roedd yr •yl hefyd yn rhan bwysig o'r cais i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop yn 2008. Byddai'r beirniaid yn asesu'r ceisiadau hynny eleni, ac felly roedd yn hanfodol bwysig i'r •yl fod yn llwyddiant yn ei blwyddyn gyntaf.
- Amcangyfrifir y bydd cyfanswm cost y prosiect yn £1.8 miliwn. Mae'r BBC wedi rhoi £600k ac amcangyfrifir y bydd gwerthiant tocynnau oddeutu £400k, gan adael £800k yn brin. Mae nifer o noddwyr eisoes wedi ymrwmo i'r prosiect gan gynnwys Sony sydd

wedi addo \$200k. Roedd darpar noddwyr yn anfodlon ymrwymo i roi arian ar hyn o bryd. Roedd yr •yl felly yn ceisio cytundeb gan y Cynulliad Cenedlaethol i warantu'r prosiect am swm o £400k, ac eisoes wedi sicrhau cytundeb am yr un swm gan Ddinas a Sir Caerdydd.

2. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y sesiwn holi ac ateb a ddilynodd:

- Sicrhawyd yr Aelodau y byddai gweithgareddau addysgol yr •yl yn ymestyn y tu hwnt i Gaerdydd, e.e. byddai Theatr Gwynedd ym Mangor yn croesawu drama gerdd Gymraeg ar gyfer y Radio, ac roedd trefnwyr yr •yl yn trafod â'r Mousetrap Foundation y syniad o drefnu dosbarthiadau meistr mewn ysgolion a dod â phlant i mewn ar fysiau ar gyfer digwyddiadau arbennig.
- Er mai Caerdydd fyddai canolbwynt yr •yl, byddai'n cael ei marchnata'n bwerus yng ngweddill Cymru, a byddai o fewn cyrraedd yr 1.8 miliwn o bobl yng Nghymru a oedd yn byw o fewn taith yrru 40 munud o Gaerdydd.
- O ran elfen benodol Gymreig i'r •yl, byddai'n cynnwys cyngerdd Ivor Novello ac roedd cynlluniau ar y gweill i gynnwys dramâu cerdd Cymreig mewn gwyliau yn y dyfodol.
- Roedd disgwyl i brisiau tocynnau fod yn debyg i brisiau tocynnau yng Nghaerdydd ar hyn o bryd ac roedd yr •yl yn cael ei hyrwyddo mewn ffeiriau masnach ledled Ewrop.
- Bu peth trafod ar y £400k yr oedd trefnwyr yr •yl yn ei geisio gan y Cynulliad Cenedlaethol. Sicrhawyd yr Aelodau mai un taliad fyddai hwn ac y byddai Cynllun Busnes yr •yl yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog Diwylliant ei ystyried.

Eitem 3: Adroddiad ar ymweliad diweddar y Gweinidog â Gwlad y Basg

1. Nododd y Pwyllgor yr adroddiad hwn. Tynnodd y Gweinidog sylw at un gwall yn yr adroddiad. Ym mharagraff 8, addysg trwy gyfrwng y Fasgeg oedd y model addysgol mwyaf poblogaidd, ar y blaen i'r model addysgol dwyieithog.

Eitem 4: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ebrill – CC-8-02(min)

4.1 Cytunwyd i dderbyn y rhain heb newid. Cytunodd y Pwyllgor petai Aelodau yn bresennol am ran yn unig o gyfarfod, na fyddid yn nodi hynny yn y cofnodion. Byddai'r cofnod yn nodi'n unig fod Aelodau yn bresennol.

Materion eraill

2. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau am bwysigrwydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 15 Mai pan fyddai'n trafod ei flaenoriaethau a'i argymhellion ar gyfer yr adroddiad ar y Gymraeg.

3. Addawodd ddsbarthu adroddiad cais Prifddinas Diwylliant Ewrop 2008 Caerdydd i aelodau'r Pwyllgor.
4. Gan ymateb i gais penodol, addawodd y Cadeirydd roi materion Ewropeaidd ar agenda yn y dyfodol.
5. Gofynnodd Dafydd Wigley am i adroddiad gan y Gweinidog yn y dyfodol gynnwys cyfraniad ar gynlluniau ar gyfer gwaith Canolfan Mileniwm Cymru ag is-ganolfannau.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mai 2002